

Gwobrau Prentisiaethau Apprenticeship Awards Cymru 2022

Dathlu'r rhai sydd yn y rownd derfynol
Celebrating the finalists

Noddwr Pennaf
Headline Sponsor

openreach

Pamffled wedi'i gefnogi gan
Brochure supported by



Busnes@
LlandrilloMenai

FFEDERASIWN HYFFORDDIANT
CENEDLAETHOL CYMRU
NTfW
NATIONAL TRAINING
FEDERATION WALES



UNDEB EIMORAKO
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Rhagair y Gweinidog	4
Vaughan Gething Gweinidog yr Economi	
Croeso i'r Gwobrau	5
John Nash Cadeirydd, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru	
Y Cyflwynydd	6
Eleri Siôn	
Y Beirniaid	7
Rownd Derfynol: Prentisiaid	9
Rownd Derfynol: Cyflogwyr	25
Rownd Derfynol: Ymarferwyr Dysgu	36

Contents

Introduction	3
Ministerial Foreword	4
Vaughan Gething Minister for Economy	
Welcome to the Awards	5
John Nash Chair, National Training Federation for Wales	
Host	6
Eleri Siôn	
Judges	7
Apprentice Finalists	9
Employer Finalists	25
Learning Practitioner Finalists	36

Cyflwyniad

Mae'r Gwobrau yn tynnu ynghyd y goreuon ymhlith dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant, sydd wedi dangos ymroddiad ac ymrwymiad llwyr i ddatblygu sgiliau a gwella busnes. Maent yn cynrychioli technoleg ddiweddaraf busnesau o safon fyd-eang, Rhaglenni Prentisiaethau sydd wedi'u teilwra yn unol ag anghenion diwydiant, a straeon am lwyddiant unigolion sy'n ysbrydoli.

Mae'r Gwobrau yn dathlu'r pethau aruthrol y mae dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr wedi'u cyflawni drwy Raglenni Prentisiaethau o safon ledled Cymru, sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Roedd gan banel dethol o feirniaid dasg anodd wrth ddidoli ceisiadau o bob rhan o Gymru cyn dewis 23 o ymgeiswyr haeddiannol a fyddai'n cael mynd i'r rownd derfynol. P'un a fyddant yn cael gwobr ai peidio, mae gan bob un o'r rhain stori i'ch ysbrydoli, sy'n eu gwneud yn llysgenhadon gwirioneddol.

Introduction

The Awards bring together the best of learners, employers and training providers, who have shown total dedication and commitment to skills development and business improvement. They represent cutting edge technology in world leading businesses, bespoke Apprenticeship Programmes designed to meet the needs of industry and inspiring individual success stories.

The Awards celebrate the outstanding achievements of learners, employers and providers involved in the delivery of quality Apprenticeship Programmes across Wales, which are funded by the Welsh Government through the European Social Fund.

A distinguished panel of judges had a difficult task filtering applications from all parts of Wales before selecting 23 worthy finalists. Irrespective of whether or not they collect an award, all the finalists have an inspiring story to tell, making them true ambassadors.

Rhagair y Gweinidog

Vaughan
Gething AS

Gweinidog yr Economi

Os oes unigolyn neu fusnes yn cyrraedd rhestr fer Gwobrau Prentisiaethau Cymru, mae'n golygu eu bod wedi mynd yr ail filltir ac mae'r seremoni'n cynnig cyfle i ni oedi ynghanol ein prysurdeb a chymryd amser i ddathlu llwyddiant y rhai sydd wedi rhagori wrth gymryd rhan yn Rhaglenni Prentisiaethau Llywodraeth Cymru neu wrth weithio arnynt. Ochr yn ochr â hyfforddwyr medrus, ymroddedig sy'n gallu llwyddo yn bersonol ac wrth gefnogi eraill, mae ein prentisiaid yn amlygu'r effaith drawsnewidiol a gafodd eu hyfforddiant gan eu helpu i gyflawni eu nod yn eu gyrfaedd neu gael trefn ar eu bywydau. Mae Prentisiaethau'n ffordd wych i unigolion o unrhyw oed i ennill sgiliau a chymwysterau, ac i gyflogwyr sicrhau bod eu gweithlu'n barod ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n credu y bydd Prentisiaethau'n hanfodol i'n helpu i ddod dros effeithiau'r coronaferws, Brexit ac, yn awr, gostau cynyddol bywyd bob dydd. Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant yng Nghymru lle mae recriwtio prentis yn dod yn norm, gan agor y drws ar gyfleoedd i bobl gael gwaith a sgiliau o safon uchel. Trwy gynlluniau adfer uchelgeisiol Llywodraeth Cymru a'n Gwarant i Bobl Ifanc, byddwn yn sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yng Nghymru a bod y wlad yn dod yn beiriant ar gyfer twf cynaliadwy, cynhwysol. Rwy'n falch iawn ein bod yn darparu profiadau dysgu ystyrlon sydd hefyd o fudd i gyflogwyr ym mhob sector o'n cymuned fusnes, yn awr ac i'r dyfodol. Rwy'n llongyfarch pawb sydd ar y rhestrau byrion eleni. Mae'ch agwedd anhygoel at ddysgu a symud ymlaen yn golygu bod pawb ohonoch yn enillwyr.



Ministerial Foreword

Vaughan
Gething MS

Minister for Economy

For any individual or business to be shortlisted for The Apprenticeship Awards Cymru means they have gone the extra

mile, and the ceremony offers us a moment to pause our busy schedules and take time to celebrate those who have excelled on, or working with, the Welsh Government's Apprenticeship Programmes. Alongside skilled, committed trainers with resilience to not only succeed themselves but in supporting others, our apprentices highlight the life-changing impact their training has had helping them achieve their career ambitions or turning their lives around. Apprenticeships

are a great way for individuals at any stage in life to gain skills and qualifications, and for employers to ensure their workforce is future-proofed. I believe Apprenticeships will be vital in helping us recover from the impacts of coronavirus, Brexit and now the rising costs of everyday life. As a government, we are committed to developing a culture in Wales where recruiting an apprentice becomes the norm, giving individuals access to high quality job opportunities and skills. Through the Welsh Government's ambitious recovery plans and our Young Person's Guarantee, we will ensure there is no lost generation in a Wales that becomes an engine for sustainable, inclusive growth. I am delighted we are providing meaningful learning experiences which also benefit employers across all sectors of our business community, now and in the future. I congratulate this year's finalists. Your incredible attitude to learning and progression means you are all winners.

Croeso i'r Gwobrau

John Nash

Cadeirydd, Ffederasiwn
Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Croeso i seremoni Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2022. Llongyfarchiadau gwresog i bawb sydd ar y rhestrau byrion – mae pawb ohonoch wedi cyflawni cymaint er mwyn haeddu'ch enwebiadau heno. Mae'r gwobrau hyn yn amlygu ac yn dathlu llwyddiant eithriadol dysgwyr, cyflogwyr ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith ledled Cymru. Yn ogystal â'ch llwyddiant personol, mae'ch gwaith caled a'ch ymroddiad yn helpu i dynnu sylw at safon uchel y gwaith cyflwyno a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael trwy Raglenni Prentisiaethau yng Nghymru.

Mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ddysgu er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr, cyflogwyr ac economi ehangach Cymru y sgiliau i ffynnu, rhywbeth a fu'n arbennig o amlwg dros y tair blynedd ddiwethaf. Maent yn dal i ymroi i gefnogi cenhadaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau 125,000 o brentisiaethau o ansawdd da yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Heno, a ninnau'n ddathlu llwyddiant, mae'r NTfW yn diolch i Lywodraeth Cymru am gefnogi a hyrwyddo'r sector, ac i gyflogwyr am barhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a fydd yn galluogi eu busnesau i dyfu.

Mwynhewch y noson!

Welcome to the Awards

John Nash

Chair, National Training
Federation for Wales

Welcome to the Apprenticeship Awards Cymru 2022 ceremony. I extend my warmest congratulations to all the finalists - you have all achieved so much to deserve your nominations tonight. These awards showcase and celebrate outstanding achievements by learners, employers and work-based learning practitioners across Wales. In addition to personal achievement, your hard work and dedication helps to shine a spotlight on the high quality of delivery and learning opportunities available through Apprenticeship Programmes in Wales.

Work-based learning providers are uniquely placed to develop new and innovative ways of learning to ensure learners, employers and the wider Welsh economy have the skills to prosper, which has been particularly evident in the past three years. They remain committed to supporting the Welsh Government's mission to achieve 125,000 high quality apprenticeships during the term of this parliament.

Tonight, as we celebrate success, the NTfW thanks the Welsh Government for supporting and championing the sector, and employers for continuing to provide apprenticeship opportunities that will enable their businesses to grow.

Enjoy the evening!



Y Cyflwynydd

Eleri Siôn

Mae Eleri Siôn yn ddarlledwraig ddwyieithog sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru ac S4C. Mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad a threuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfa'n gweithio ar raglenni byw ar y radio a'r teledu. Ar hyn o bryd, mae i'w chlywed ar BBC Radio Wales yn cyflwyno The Late Show ac, ar ddydd Gwener, the Afternoon Show. Mae wedi gwneud llawer o waith cyflwyno ar raglenni chwaraeon, yn cynnwys rygbi ar S4C a rygbi, pêl-droed a chriced ar Radio Cymru ac mae'n gynhyrchydd cyswllt ar raglenni dartiau a snwcer Sky. Roedd cyd-gyflwyno amryw o sioeau radio o Ffrainc gydag Owen Money yn ystod ymgyrch lwyddiannus tîm pêl-droed Cymru yn yr Ewros yn 2016 yn uchafbwynt iddi. Mae Eleri Siôn wrth ei bodd ag adloniant ysgafn ac mae wedi gwneud gwaith cyflwyno ar sioeau JONATHAN, OCI OCI OCI (S4C), THE SIX NATIONS GRAND SLAM QUIZ, SINBIN (BBC WALES). Yn ogystal, mae Eleri wedi cyflwyno digwyddiadau amrywiol fel nosweithiau gwobrwy Gwobrau Dewi Sant, Gwobrau PRide CIPR Cymru a digwyddiadau codi arian i nifer o elusennau. Mae Eleri yn berson hyblyg sy'n gallu addasu yn ôl y sefyllfa. Mae ganddi'r ddawn i gyrraedd ei chynulleidfâ â'i phersonoliaeth fywiog, gynnes. Mae'n credu'n gryf mewn meithrin sgiliau cyfathrebu mewn pobl o bob oedran ac mae o'r farn mai dyma'r sgiliau pwysicaf y mae arnoch eu hangen er mwyn llwyddo!

Mae hefyd yn Llysgennad i elusen newydd - Elusen Canser Syr Gareth Edwards sy'n cefnogi pobl ifanc 15-35 oed yng Nghymru sy'n cael triniaeth am ganser.



Host

Eleri Siôn

Eleri Siôn is a well-established bilingual broadcaster on BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru and S4C. With over 30 years' experience, she has spent the majority of



her career working on live radio and tv programmes and currently presents The Late Show on BBC Radio Wales and on Fridays, the Afternoon Show on the station. She has worked extensively as a presenter on sports shows covering rugby for S4C, rugby, football and cricket on Radio Cymru and as an associate producer for Sky's Darts and Snooker coverage. Her highlight came in 2016 co-presenting with Owen Money various radio shows from France following the Welsh football

team's successful European campaign. Eleri Siôn's heart lies in light entertainment and has contributed as a presenter to shows which include JONATHAN, OCI OCI OCI (S4C), THE SIX NATIONS GRAND SLAM QUIZ, SINBIN (BBC WALES). On a corporate level, Eleri has hosted a wide range of events from the St David Awards, Wales PRide Awards to Fundraising evenings for various charities. Eleri is versatile and adaptable. She has the ability to reach out to her listeners with her personality and warmth. Her passion lies in developing and nurturing communication skills within individuals across a range of ages and she believes that this is the most useful skillset you can have to succeed!

Eleri Siôn is also an Ambassador for a brand new charity launching this autumn - Sir Gareth Edwards Cancer Charity that supports young people aged 15-35 in Wales who are having treatment for cancer.

Y Beirniaid

Diolch yn arbennig i'n holl feirniaid

Christine Bissex-Foster
Y Coleg, Merthyr Tudful
The College, Merthyr Tydfil

Louise Burnell
Coleg y Cymoedd

Nina Cheeseman
BT

Carmela Carrubba
Real SFX

Shon Morris
Openreach

Maria Jones
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf
County Borough Council

Judges

Our special thanks go to all our judges

Hannah Williams
BBC Cymru

Lisa Winter
Zurich

Sian Woolson
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf
County Borough Council

Rachel Meese-Kendall
Crimewatch Alarms



Prentis Sylfaen
y Flwyddyn

Foundation Apprentice of the Year

Noddwyd gan / Sponsored by



Olivia Headley-Grant

Mae gan brentis o'r enw Olivia Headley-Grant uchelgais heintus i wneud pethau'n well, yn gyflymach ac yn fwy effeithlon yn ei thîm ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Ymunodd Olivia, 18, o'r Barri, â thîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym maes cynllunio strategol fel prentis yn ystod y pandemig a chwblhaodd Brentisiaeth Sylfaen City & Guilds mewn Gweinyddu Busnes, a gyflenwyd gan Goleg Caerdydd a'r Fro, fis Tachwedd diwethaf.

Er iddi orfod gweithio o bell yn ystod y pandemig, mae Olivia wedi ffynnu yn ystod ei phrentisiaeth ac wedi sicrhau swydd fel cynorthwydd gweinyddol.

Mae wedi creu argraff ar bawb gyda'i gwaith i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar amrywiaeth o brosiectau ar gyfer y GIG, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i helpu i wella profiad pobl o ofal trwy wasanaethau cydgysylltiedig.

Apprentice Olivia Headley-Grant's ambition to do things better, faster and more efficiently is infectious in her team at Cardiff and Vale University Health Board.

Olivia, 18, from Barry, joined the Regional Partnership Board's team within strategic planning as an apprentice during the pandemic and completed a City & Guilds Foundation Apprenticeship in Business Administration, delivered by Cardiff and Vale College, last November.

Despite having to work remotely during the pandemic, Olivia thrived during her apprenticeship and secured post as an administration assistant.

She has impressed everyone with her work for the Regional Partnership Board on a range of projects across NHS, local authorities and third sector to help improve people's experience of care through joined up services.





Malgorzata Bienko

Mae Malgorzata Bienko, prentis o Wlad Pwyl, wedi goresgyn rhwystrau iaith a nam ar ei chlyw gan ddod yn aelod gwerthfawr o'r tîm yn School Lane Preschool, Llandudno.

Mae Malgorzata, 41, wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaen mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, a ddarperir gan Hyfforddiant Arfon Dwyfor Cyfyngedig.

Ar ôl gweithio am gyfnod yn y sector gofal cymdeithasol, mae hi wedi addasu'n gyflym i weithio gyda phlant bach ac mae wrth ei bodd â'i swydd lle caiff ei hannog i rannu diwylliant a thraddodiadau Gwlad Pwyl.

Ar ôl ennill Gradd Sylfaen mewn Celf a Dylunio yng Ngholeg Llandrillo Menai a Gradd BA mewn Darlunio o Brifysgol Glyndŵr yn Wrecsam, mae Malgorzata yn cyfuno'i holl sgiliau wrth weithio gyda phlant ar brosiectau celf a chrefft.

Polish apprentice Malgorzata Bienko has overcome language and hearing disability barriers to make herself a valuable member of the team at School Lane Preschool in Llandudno.

Malgorzata 41, has completed a Foundation Apprenticeship in Children's Care, Play, Learning and Development, delivered by Arfon Dwyfor Training Limited.

Previously employed in the social care sector, she has quickly adapted to working with young children and loves her job at the pre-school setting where she is encouraged to share Polish culture and traditions.

Having achieved a Foundation Degree in Art and Design at Coleg Llandrillo Menai and a BA Degree in Illustration from Glyndwr University, Malgorzata combines all her skills when working with children on arts and crafts projects.



Boglarka-Tunde Incze

Mae prentisiaethau'n helpu Boglarka-Tunde Incze, sy'n arweinydd tîm gofal cartref, i wneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl y mae hi'n gofalu amdanynt ac yn gweithio gyda nhw.

I ddechrau, defnyddiodd Boglarka, sy'n byw yn Llanrug, y Radd Baglor mewn Cyfrifiadureg, a enillodd yn Rwmania, i weithio i gwmnïau rhyngwladol.

Cymerodd swydd ychwanegol fel gofalwr rhan amser, yn cefnogi pobl yn eu cartrefi a, gan ei bod yn mwynhau'r gwaith gymaint, newidiodd yrfa yn ystod y pandemig.

Mae wedi cwblhau Prentisiaethau Lefel 2 a 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Itec Skills and Employment a hoffai gymhwyso fel asesydd.

O Hwngari y daw Boglarka yn wreiddiol. Mae'n dysgu Cymraeg ac yn gweithio rhan amser i Gofal Bro Cyf ac fel cynorthwydd gofal iechyd lliniarol gyda Marie Curie.

Apprenticeships are helping domiciliary care team leader Boglarka-Tunde Incze to make a difference to the lives of people she cares for and works with.

Boglarka, from Llanrug, initially used a Bachelor of Computer Sciences Degree, which she achieved in Romania, to work for international companies.

She took on an extra role as a part-time carer, supporting people in their homes and enjoyed the work so much that she changed career during the pandemic.

Having completed Levels 2 and 3 Apprenticeships in Health and Social Care with Itec Skills and Employment, she would like to qualify as an assessor.

Originally from Hungary, Welsh learner Boglarka works part-time for Gofal Bro Cyf and is a Marie Curie palliative healthcare assistant.



Prentis y Flwyddyn Apprentice of the Year

Noddwyd gan / Sponsored by



James Matthewman

Mae James Matthewman wedi gwneud strocen feistrolgar wrth ddewis gwneud prentisiaeth yng Nghlwb Golff Maesteg. Ar ôl cwblhau Prentisiaeth mewn Rheoli Tir Chwaraeon a Garddwriaeth, a ddarparwyd gan Goleg Pen-y-bont, mae wedi'i ddyrchafu'n ddirprwy brif ofalwr y maes.

Yn ogystal, enillodd ysgoloriaeth gan y British and International Golf and Greenkeepers Association (BIGGA) – un o ddim ond pump yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon – i gydnabod ei ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Erbyn hyn, mae James, 36, o Faesteg, yn gweithio tuag at Brentisiaeth mewn Arwain a Rheoli gyda'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI) ac yn gwella ei Gymraeg. Cafodd ei enwi'n Ddysgwr y Flwyddyn Dysgu Seiliedig ar Waith gan Goleg Pen-y-bont am gymwysterau cysylltiedig â'i brentisiaeth mewn Saesneg a Mathemateg.

James Matthewman has seen his career at Maesteg Golf Club head straight down the fairway since teeing off with an apprenticeship. Having completed an Apprenticeship in Sports-turf Management and Horticulture, delivered by Bridgend College, he has been promoted to deputy head greenkeeper.

He also won a scholarship from the British and International Golf and Greenkeepers Association (BIGGA) – one of only five in the UK and Ireland – as a reward for his continuing professional development.

James, 36, from Maesteg, is now working towards an Apprenticeship in Leadership and Management with the Chartered Management Institute (CMI) and improving his Welsh language. He was named Work-based Learner of the Year by Bridgend College for English and Mathematics qualifications linked to his apprenticeship.





Dion Evans

Mae asiedydd dawnus o Geredigion, Dion Evans, yn mwynhau blwyddyn gofiadwy wrth iddo edrych ymlaen at gynrychioli Cymru yn rownd derfynol genedlaethol cystadleuaeth WorldSkills UK ym mis Tachwedd.

Enillodd Dion, 19, sy'n gweithio i Alwyn Evans Cyf ym mhentref Talgarreg, Llandysul, fedal aur i gymhwyso ar gyfer rownd derfynol y gystadleuaeth i asiedyddion yng Nghaeredin, ar ôl ennill medal efydd y llynedd.

Mae Dion, sydd wedi cwblhau Prentisiaeth City & Guilds mewn Gwaith Asiedydd o Goleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr, yn gwneud cyfraniad sylweddol at gwmni ei gyflogwr. Mae llwyth gwaith ac elw'r busnes wedi codi 20 y cant gan fod Alwyn wedi'i ryddhau i gymryd mwy o waith, sy'n cynnwys gwneud grisiau a chabinetau wedi'u cynllunio'n bwrpasol.

Talented West Wales joiner Dion Evans is enjoying a memorable year as he looks forward to representing Wales in the national finals of the WorldSkills UK competition in November.

Dion, 19, who works for Alwyn Evans Ltd in his home village of Talgarreg, Llandysul, won a gold medal to qualify for the final of the joinery competition in Edinburgh, building on his bronze from last year.

Having achieved a City & Guilds Apprenticeship in Bench Joinery from Coleg Ceredigion and Coleg Sir Gâr, Dion is making a positive contribution to his employer. Workload and profits have risen by 20 per cent as Alwyn has been freed up to take on more work, including making bespoke cabinets and staircases.



Kiera Dwyer

Mae Kiera Dwyer wedi dangos penderfyniad, ymroddiad ac ymrwymiad wrth sicrhau cyfres o gymwysterau i gefnogi ei gwaith mewn fferyllfa gymunedol yn Abercynon.

Mae Kiera, 24, o Rydyfelin, Pontypridd, sydd â Syndrom Irlen, a elwir hefyd yn straen gweledol, wedi cymryd cyfrifoldeb ychwanegol er mwyn rhoi mwy o amser i fferyllwyr yn Fferyllfa Sheppards, sy'n rhan o grŵp Avicenna, i ymdrin â chleifion rheng flaen. O ganlyniad, caiff y fferyllfa sgôr o hyd at 100% gan gleifion.

Cwblhaodd Brentisiaeth Rhaglen Hyfforddi Technegydd Fferylliaeth Cyn-gofrestru a oedd yn cynnwys Diploma BTEC Lefel 3 mewn Gwyddor Fferyllol trwy'r corff dyfarnu Pearson a City & Guilds Lefel 3 mewn Sgiliau Gwasanaethau Fferylliaeth.

Cyflwynwyd y brentisiaeth gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) gyda chymorth gan ALS Training.

Kiera Dwyer has shown determination, dedication and commitment to achieve a series of qualifications to support the community pharmacy where she works in Abercynon.

Kiera, 24, from Rhydyfelin, Pontypridd, who has Irlen Syndrome, also known as visual stress, has taken on extra responsibility to allow pharmacists at Sheppards Pharmacy, part of the Avicenna group, more time to deal with front line patients, resulting in rating of up to 100% from patients

She completed a Pre-registration Pharmacy Technician Training Programme Apprenticeship which included a BTEC Level 3 Diploma in Pharmaceutical Science through awarding body Pearson and a City & Guilds Level 3 in Pharmacy Service Skills.

The apprenticeship was delivered by Health Education and Improvement Wales (HEIW) supported by ALS Training.



Prentis Uwch y Flwyddyn Higher Apprentice of the Year

Noddwyd gan / Sponsored by



Albert Brennan

Mae gyrfa Albert Brennan fel peiriannydd diriant gydag Airbus ym Mrychdyn wedi codi'n uchel diolch i'r sgiliau a'r wybodaeth a gafodd wrth wneud Prentisiaeth Radd. Mae Albert, 29, o Gefn-y-bedd, Wrecsam, yn gweithio yng nghanolfan ragoriaeth fyd-eang y cwmni, lle cynhyrchir adenydd ar gyfer awyrennau Airbus.

Cwblhaodd Brentisiaeth Radd (Lefel 6) mewn Peirianeg Awyrenneg trwy Brifysgol Abertawe, gan ennill Gradd Baglor mewn Peirianeg Awyrenneg a Gweithgynhyrchu, ac NVQ Lefel 4 mewn Gweithgynhyrchu Peirianyddol.

Erbyn hyn, mae Albert yn gwneud Gradd Meistr mewn Peirianeg Strwythurau Ysgafn ac Ardrawiad, ar ôl cael cynnig ysgoloriaeth lawn gan y National Structural Integrity Research Centre (NSIRC). Ac yntau'n Beiriannydd Corfforedig ac yn Aelod Cyswllt o'r Gymdeithas Awyrenegol Frenhinol, enillodd Wobr y Myfyriwr Gorau gan Brifysgol Abertawe.

Albert Brennan's career as a stress engineer with Airbus in Broughton has taken off with the skills and knowledge gained during a Degree Apprenticeship. Albert, 29, from Cefn-y-Bedd, Wrexham, works at the company's global centre of excellence for manufacturing wings for Airbus aeroplanes.

He completed a Degree Apprenticeship (Level 6) in Aeronautical Engineering through Swansea University, achieving a Bachelor's Degree in Aeronautical & Manufacturing Engineering and an NVQ Level 4 in Engineering Manufacture.

Albert is now undertaking a Master's Degree in Lightweight Structures & Impact Engineering, having been offered a full scholarship by the National Structural Integrity Research Centre (NSIRC). An Incorporated Engineer and Associate Member of the Royal Aeronautical Society, he won the Top Student Award from Swansea University.





Jayne Williams

Mae'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd bob amser yn troi at Jayne Williams i annog pobl i wneud prentisiaethau, diolch i'w brwdfrydedd dros ddysgu a datblygu.

Mae swydd Jayne, 58, o Gasnewydd, fel clerc llys wedi'i ehangu i gynnwys hyfforddi staff, mentora, hwyluso a chysiau academi. Yn y flwyddyn ddiwethaf, helpodd i hyfforddi 690 o gydweithwyr y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd drwy weithdai ar-lein.

Maen nhw'n cyfeirio pobl ati hi – y cyntaf o weithwyr y Gwasanaeth i gwblhau Prentisiaeth Uwch (Lefel 4) mewn Cyngor ac Arweiniad, gan y darparu'r hyfforddiant ACT.

Fodd bynnag, nid dyna yw diwedd taith ddysgu Jayne. Yn awr, mae'n llygadu cymhwyster gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu neu Brentisiaeth Uwch (Lefel 5) mewn Dysgu a Datblygu.

Jayne Williams says she has become the “apprenticeships poster girl” within HM Courts and Tribunals Service (HMCTS) due to her passion for learning and development.

Jayne, 58, from Newport, has seen her role as a court clerk expanded to cover running staff training, coaching, facilitation and academy courses. In the past year, she helped train 690 HMCTS colleagues via online workshops.

She is the “go to” person having been the first HMCTS employee to achieve a Higher Apprenticeship (Level 4) in Advice & Guidance, delivered by training provider ACT.

However, Jayne's learning journey is not stopping there. She is eyeing a Chartered Institute of Personnel and Development qualification or a Higher Apprenticeship (Level 5) in Learning and Development.



Michelle Gaskell

Mae Prentisiaeth Uwch wedi helpu Michelle Gaskell i reoli prosiectau er mwyn gwella safonau ansawdd gwyddor fforensig gyda'r potensial o arbed miliynau o bunnoedd i heddluoedd, y GIG ac elusennau.

Mae Michelle, 32, o'r Fenni, yn arbenigwr ansawdd yn y Forensic Capability Network, rhan o bortffolio fforensig Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, lle mae'n rheoli prosiectau i gefnogi'r 43 o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.

Bu'n rheoli prosiect cenedlaethol gan y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yn ymwneud â chasglu tystiolaeth gan ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol, gan arbed dros £500,000.

Gwnaeth Michelle Brentisiaeth Uwch (Lefel 4) mewn Rheoli Prosiectau drwy EAL, wedi'i chyflenwi gan ALS Training a'i darparu gan Heddlu De Cymru, mewn dim ond saith mis.

A Higher Apprenticeship has helped Michelle Gaskell to manage projects to improve forensic science quality standards that could potentially save police forces, the NHS and charities millions of pounds.

Michelle, 32, from Abergavenny, works as a quality specialist in the Forensic Capability Network, part of the National Police Chiefs Council forensic portfolio, where she manages national projects to support 43 Police Forces across England and Wales.

She managed a national Sexual Assault Referral Centre (SARC) project linked to the recovery of evidence from victims of sexual assault, which saved more than £500,000.

Michelle achieved a Higher Apprenticeship (Level 4) in Project Management through EAL, delivered by ALS Training and provided by South Wales Police, in just seven months.



Doniau'r Dyfodol Tomorrow's Talent

Noddwyd gan / Sponsored by

openreach



Chrystalla Moreton

Mae prentis peirianeg o'r enw Chrystalla Moreton yn awyddus i fod yn batrwm i ferched yn y diwydiant dur ac, yn ôl ei chyflogwr, mae'n "seren ddisglair".

Mae Chrystalla, 20, o'r Tyllgoed, Caerdydd, yn gweithio i'r cwmni dur cyfnerthedig Celsa Steel yn y ddinas ac mae'n gwneud Prentisiaeth Peirianeg Fecanyddol mewn Gwasanaethau Cynhyrchu a gyflenwir gan y darparwr hyfforddiant TSW.

Bu'n rhaid iddi newid ei chynllun gwreiddiol o ymuno â'r Fyddin yn dilyn trychineb deuluol a effeithiodd ar ei hiechyd meddwl. Mae'n benderfynol o wneud iawn am yr amser a gollwyd, chwifio'r faner dros beirianwyr benywaidd a pharhau i gefnogi ei theulu.

"Ar ôl cyfnod isel, mae hwn yn drawsnewidiad enfawr."

Engineering apprentice Chrystalla Moreton wants to become a role model for women in the steel industry and is described as a "shining star" by her employer.

Chrystalla, 20, from Fairwater, Cardiff, is employed by reinforced steel manufacturer Celsa Steel in the city where she is working towards an Mechanical Engineering Apprenticeship in Production Services delivered by training provider TSW.

She had to revise her original plan to join the Army following a family tragedy, which took its toll on her mental health. Making up for lost time, she is determined to fly the flag for female engineers and continue supporting her siblings.

"After being at the lowest point in my life, this is a massive turnaround."





Anya O'Callaghan

Mae'r penderfyniad i recriwtio Anya O'Callaghan yn swyddog marchnata, addysg a datblygu busnes yn talu ar ei ganfed i salon gwallt arobryn Spirit Hair Team yn Ystrad Mynach.

Mae Anya, 25, yn gweithio tuag at Brentisiaeth yn y Cyfryngau Cymdeithasol i Fusnesau gyda'r darparwr hyfforddiant Educ8. I ddechrau, cyflogwyd hi i weithio rhan-amser i drefnu gweithdai hyfforddi ar-lein gyda chyflenwyr y cwmni yn ystod cyfnodau clo'r pandemig.

Erbyn hyn, mae Anya'n gweithio llawn amser ac mae'n "ased amhrisiadwy" i'r busnes. Mae ei swydd wedi'i hymestyn i gynnwys datblygu busnes, recriwtio prentisiaid, datblygu'r wefan, marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol a gwneud dysgu'n fwy hwylus i brentisiaid ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae perchennog y busnes, Janine O'Callaghan, wrth ei bodd â gwaith ei merch ac yn disgwyl iddi roi hwb o 12% i drosiant y cwmni eleni.

Recruiting Anya O'Callaghan as marketing, education and business development officer is paying dividends for award winning hair salon Spirit Hair Team in Ystrad Mynach.

Anya, 25, who is working towards an Apprenticeship in Social Media for Business delivered by training provider Educ8, was initially employed part-time to organise online training workshops with the company's suppliers during the pandemic lockdowns.

An "invaluable asset" to the business, Anya's role is now full time and has been extended to cover business development, recruitment of apprentices, website development, social media marketing and making learning more accessible to apprentices with additional learning needs. Business owner Janine O'Callaghan is delighted with her daughter's work which is expected to boost the company's turnover by 12% this year.



Evan Coombs

Llwyddodd PCI Pharma Services i daro ar aur pan ymunodd Evan Coombs, prentis dadansoddwr labordy, â'r busnes trwy Raglen Rhannu Prentisiaethau Anelu'n Uchel Blaenau Gwent.

Enillodd Evan, 19, o Flaenafon, fedal aur yn y categori Technegydd Labordy yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru eleni. Mae'n cael ei ganmol am ei waith ardderchog ac mae wedi arbed amser ac arian i'w gyflogwr â'r data a gasglodd ar gyfer prosiect gwelliant parhaus. Arweiniodd hynny at gyflogi dau dechnegydd.

Mae Evan yn gweithio tuag at Brentisiaeth Technegydd Labordy a Gwyddoniaeth a ddarperir gan Goleg y Cymoedd, ac yn astudio ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol Uwch Lefel 4 mewn Cemeg Gymhwysol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe. Mae'n cael ei gyflogi gan PCI Pharma Services ac Anelu'n Uchel Blaenau Gwent ar y cyd.

PCI Pharma Services struck gold when apprentice laboratory analyst Evan Coombs joined the business through the Aspire Blaenau Gwent Shared Apprenticeship Programme.

Evan, 19, from Blaenavon, was a gold medallist in the Laboratory Technician category at the Skills Competition Wales this year. Praised for his excellent work, he has saved his employer time and money with the data he gathered for a continuous improvement project which has led to the employment of two technicians.

